OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 1247 (Cy. 295)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Rhagfyr 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 58, 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad, yn unol ag adran 143(4) o'r Ddeddf honno(**3**).

Yn unol ag adran 58(9) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i'r amcan o sicrhau (i'r graddau y bo hynny'n ymarferol) nad yw'r cyfanswm sy'n daladwy i Weinidogion Cymru a'r holl awdurdodau bilio ar ffurf ardrethi annomestig o ran y blynyddoedd ariannol sy'n dod o fewn y cyfnod perthnasol yn fwy na'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n debygol o fod yn daladwy heblaw am y Rheoliadau hyn.

(**1**) >1988 p. 41. Diwygiwyd adran 58 gan adran 117(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14), a pharagraff 68 o Atodlen 13 iddi, adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 1994 (p. 3), adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p. 29), a pharagraff 5 o Atodlen 1 iddi, adran 65(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) ac adran 2(1) o Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 (p. 9), a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Mae'r cyfeiriad at ddau Dŷ'r Senedd yn adran 143(4) o'r Ddeddf i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.